



Y Coleg Brenhinol
Therapyddion Lleferydd
ac Iaith yw ei aelodau.

Diolch i'n holl aelodau
sydd wedi ymwneud â'n
gwaith dylanwadu yn y
flwyddyn ddiwethaf.

RCSLT Wales Uchafbwyntiau

Mehefin 2025/26

I gymryd rhan yn ein gwaith:

Ewch i'n gwefan polisi Cymru
www.rcslt.org/wales

- Darllen ein e-gylchlythyr deufisol ar bolisi Cymru.
- Ffoniwch ni neu anfonwch e-bost atom – walesoffice@rcslt.org
029 2002 5585

Digwyddiad yng Ngogledd Cymru i ddatlu ein pen-blwydd yn 80 oed



Roedd y RCSLT yn 80 oed yn 2025. Bu aelodau'n dathlu'r garreg filltir bwysig yma gyda'n gilydd yng Ngogledd Cymru ym mis Tachwedd.

Roedd yn wych gweld cynifer o aelodau a rhanddeiliaid yn bresennol yn y digwyddiad. Yn siarad yn y digwyddiad roedd defnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys Steve, ynghyd â Janice ei bartner, a Josh gyda'i dad Pete. Siaradodd Steve am ei brofiadau o affasia yn dilyn strôc, a soniodd Josh am anawsterau cyfathrebu oherwydd anaf i'r ymennydd yn dilyn damwain ffordd.



Steve a'i bartner Janice.



Joe a'i Dad, Pete.

Effaith

Fe wnaethom siarad gydag arweinydd lleol yn y GIG ac elusennau sy'n bartneriaid am bwysigrwydd gwaith therapi lleferydd ac iaith.

Adroddiad Cyflwr y Genedl 2026



Lansiwyd Adroddiad Cyflwr y Genedl 2026 RCSLT Cymru ar 18 Mai. Cafodd yr adroddiad hefyd ei rannu gydag Aelodau o'r Senedd (ASau) ar 20 Mai, rhai ohonynt yno am y tro cyntaf a rhai wedi eu hail-ethol.

Diolch i'n holl aelodau a gyfrannodd at ac a fu'n ymwneud â'r adroddiad. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth fanwl am y galw am wasanaethau therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru ynghyd â dadansoddiad o'r gweithlu cyfredol a gweithlu'r dyfodol, yn cynnwys yr her barhaus o gadw staff yn y proffesiwn.

Effaith

- Cafodd yr adroddiad 30 darn o sylw ar y teledu, radio ac ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y diwrnod lansiio.
- Mae'r proffil cryf hwn yn y cyfryngau wedi helpu i godi ymwybyddiaeth ymysg ASau o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r proffesiwn cyn ein digwyddiad ymgysylltu yn y Senedd.
- Bydd gan yr adroddiad ran bwysig wrth ddylanwadu ac ymgysylltu â'r llywodraeth newydd ar ddyfodol gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru.



AHPF Cymru



Rydym wedi gweithio ar y cyd ac yn strategol gyda Ffederasiwn Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru (AHPF Cymru) i gefnogi a hyrwyddo buddiannau ein haelodau.

Buom yn gweithio gyda AHPF Cymru i lunio dogfen gofynion allweddol i ddylanwadu ar faniifestos cyn yr etholiadau i'r Senedd ym Mai 2026. Roedd gennym stondinau yng nghynadlledau'r holl bleidiau gwleidyddol i godi proffil proffesiynau perthynol i iechyd gydag ymgeiswyr a chwrdd gydag awduron maniffesto y chwe phrif plaid wleidyddol. Fe wnaethom weithio gyda AHPF Cymru dros hysbysebu swydd Prif Swyddog Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, yn cynnwys arwain ar lythyr agored a lofnodwyd gan 300 o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.

Effaith

- O'r chwech prif blaid wleidyddol, roedd tair - yn cynnwys Plaid Cymru - yn cynnwys ymrwymadau penodol yn gysylltiedig â'r proffesiynau perthynol i iechyd yn eu maniffestos. Byddwn yn awr yn mynd ati i weithio i ddylanwadu ar ddatblygu polisiau'r dyfodol a sicrhau y caiff blaenoriaethau'r gweithlu proffesiynol perthynol i iechyd a'r proffesiwn therapi lleferydd ac iaith eu hadlewyrchu yng nghynlluniau a phenderfyniadau'r llywodraeth.
- Cafodd swydd y Prif Swyddog Proffesiynau Perthynol i Iechyd ei hysbysebu a roeddem yn rhan o'r broses cyfweiliadau.

Anhwylder Datblygu Iaith



Roedd y Gweithgor Pedair Cenedl y RCSLT ar Anhwylder Datblygu Iaith a Threfniadau Mynediad i arholiadau yn dod ynghyd ag arbenigwyr clinigol, addysgol, ymchwil a pholisi. Roedd ffocws y grŵp ar ddiwygio systemau arholiadau'r Deyrnas Unedig i'w gwneud yn hygyrch ar gyfer myfyrwyr gydag anawsterau iaith.

Effaith

- Yn gynnar yn 2026 cyhoeddodd y grŵp adroddiad pwysig ar draws y Deyrnas Unedig dan y teitl Adroddiad Pedair Cenedl y RCSLT ar Anhwylder Datblygu Iaith a Threfniadau Mynediad i Arholiadau. Mae'r adroddiad yn galw am ddiwygio ar frys y ffordd y caiff trefniadau mynediad arholiadau eu haseinio.
- Cafodd effaith bwysig y gweithgor ar degwch addysgol ei enwebu ar gyfer Gwobr Amrywiaeth Genedlaethol ym Mai 2026.
- Byddwn yn parhau i gydweithio gyda Chydbwyllgor Addysg Cymru, prif gorff arholiadau dyfarnu yng Nghymru.



Plant a phobl ifanc



Siarad gyda Fi. Rydym wedi parhau ein trafodaethau am Siarad gyda Fi, ymgyrch genedlaethol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu gyda ffocws ar atal yn y blynyddoedd cynnar.

Effaith

Cafodd ein trafodaethau ddylanwad uniongyrchol ar yr ymgynghoriad ar gamau nesaf Siarad gyda Fi, gan ymestyn y gwaith cyfredol, gan yrru gwelliant i gyrraedd mwy o blant yng Nghymru.

Anghenion Dysgu Ychwanegol. Fe wnaethom ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Effaith

Daeth yr adroddiad Gwaddol gan y Pwyllgor i'r casgliad y gall pwyllgor sy'n olynu ddymuno edrych ar ddeilliannau Anghenion Dysgu Ychwanegol ac os yw hyn yn gwella deilliannau ar gyfer plant.

Cyfiawnder Ieuenctid. Cawsom gyfarfod gyda'r cyn Ysgrifennydd Cabinet a Phennaeth Datganioli Cyfiawnder Ieuenctid yn Llywodraeth Cymru.

Effaith

Gwnaed ymrwymiad i ysgrifennu canllawiau arfer gorau yn cynnwys safonau ynghylch Therapi Lleferydd ac Iaith.